# CYSUR:
## BWRDD DIOGELU PLANT CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# Y Cymorth Cywir ar yr Amser Cywir

## ar gyfer Plant, Pobl ifanc a'u Teuluoedd

Dogfen Trothwyon Rhanbarthol
a Chymhwystra ar gyfer Cymorth



CYDWEITHREDIAD CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# Cynnwys


3 Cyflwyniad

4 Fframwaith y Cymorth Cywir ar yr Amser Cywir

5 Diben y Canllawiau hyn

5 Dogfennau Cysylltiedig

6 Lefelau Cymorth

7 Sgyrsiau Amlasiantaeth a Rhannu Gwybodaeth

8 Y Saith Rheol aur ar Gyfer Rhannu Gwybodaeth

9 Rhianta

19 Iechyd

23 Iechyd Emosiynol

32 Ffactorau Cymdeithasol ac Amgylcheddol

35 Addysg

41 Atodiad 1: Meini prawf cymhwystra ar gyfer gofal a chymorth

42 Atodiad 2: Triongl y fframwaith asesu

43 Atodiad 3: Ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

44 Atodiad 4: Protocol amlasiantaeth ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol

45 Atodiad 5: Trefniadau ardal leol a mapio gwasanaethau

# Cyflwyniad

Mae gan bawb hawl i lesiant, ac mae gan bawb gyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain, ond mae angen cymorth ychwanegol ar rai pobl i gyflawni hyn, gan roi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl ar hyd eu bywydau.

Mae llesiant yn golygu bod unigolyn yn hapus, yn iach, ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn y mae'n ei wneud.

**Egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

- Mae'r Ddeddf yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni canlyniadau llesiant gwell
- Rhoddir pobl wrth wraidd y system newydd drwy roi llais cyfartal iddynt o ran y cymorth maen nhw'n ei gael
- Mae partneriaeth a chydweithrediad yn ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau
- Bydd gwasanaethau'n hyrwyddo atal angen rhag gwaethygu a bydd y cymorth cywir ar gael ar yr amser cywir

Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar sail amlasiantaeth. Dyma ail fersiwn y ddogfen wreiddiol, a ddatblygwyd yn wreiddiol mewn ymgynghoriad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn 2017. Mae'r ddogfen wedi'i chynllunio i roi canllawiau i ymarferwyr i egluro o dan ba amgylchiadau y dylid cyfeirio plant a'u teuluoedd at gymorth ar draws y sbectrwm o angen, gan adeiladu ar gryfderau teuluoedd a chanlyniadau personol. Mae wedi'i diweddaru i adlewyrchu ac ymgorffori tirwedd ymarfer diogelu amlasiantaeth sy'n newid yn barhaus, yr ymchwil ddiweddaraf sy'n llywio ymyriadau y gwyddys eu bod yn gweithio gyda plant a theuluoedd, yn ogystal â newidiadau a datblygiadau sydd wedi digwydd ar y lefel genedlaethol o ran deddfwriaeth, canllawiau statudol a pholisi.

## Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r canlynol:

- Y gwahanol lefelau o angen a chryfderau sy'n amlwg ar draws y sbectrwm o gymorth cyffredinol i gymorth amddiffynnol, gan ddarparu canllawiau ar drothwyon angen wrth gydnabod y gall sefyllfaoedd ac amgylchiadau plant a'u teuluoedd amrywio ar draws y sbectrwm o angen a dylid defnyddio barn broffesiynol bob amser mewn partneriaeth â'r teulu.
- Y diffiniad cyfreithiol o'r meini prawf cymhwystra i gael mynediad at ofal a chymorth fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a, phan fo'n briodol, at warchodaeth o dan Ddeddf Plant 1989.
- Siart llif atodol ar y broses ar gyfer cael mynediad at ofal a chymorth fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Gwybodaeth a chanllawiau atodol mewn perthynas â'r triongl asesu a'r ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (Iechyd Cyhoeddus Cymru).
- Atodiadau yn rhestru ac yn cyfeirio at bolisïau a strategaethau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n ategu'r ddogfen drothwy hon, yn ogystal â dolenni i wefan Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, hyb adnoddau ar gyfer ymarferwyr, a thudalen o adolygiadau ymarfer plant a gyhoeddwyd.





**Audrey Somerton-Edwards**
Cadeirydd CYSUR – Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Fframwaith
# Y Cymorth Cywir ar yr Amser Cywir


### CYMORTH CYFFREDINOL
Plant, pobl ifanc a theuluoedd y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu gan wasanaethau cyffredinol.

### CYMORTH CYNNAR
Plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol ac a allai fod angen Cymorth Cynnar gan wasanaethau arnynt.

### CYMORTH WED'I DARGEDU
Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn profi anawsterau ac mae angen ymateb cydlynol wedi'i dargedu arnynt.

### ASESU AR GYFER GOFAL A CHYMORTH
Mae angen Gofal a Chymorth ac asesiad ar blant, pobl ifanc a theuluoedd, a phan fo angen, cynllun.

### CYMORTH AMDIFFYNOL
Mae plant a phobl ifanc angen amddiffyniad, camau amddiffynnol neu gamau diogelu brys.



# Diben y Canllawiau hyn

**A** Ategu a hyrwyddo proses effeithiol, gynnar a chyson o adnabod anghenion.

**B** Cynorthwyo ymarferwyr i benderfynu ar y ffordd orau o helpu i ddiogelu/amddiffyn plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**C** Sicrhau ymateb amserol a chymesur i anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd.



# Dogfennau Cysylltiedig

## Polisïau ac adnoddau rhanbarthol

- Dogfen drothwy ar gyfer oedolion – Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Protocol rhannu gwybodaeth – Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Datrys gwahaniaethau proffesiynol – Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Strategaeth camfanteisio
- Adnoddau rhanbarthol ar chwilfrydedd proffesiynol

## Gwefan

- Adnoddau'r Asiantaeth Cynnal Plant
- Adnodd ar chwilfrydedd proffesiynol
- Animeiddiad plant
- Polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol
- Dysgu o adolygiadau

## Dogfennau cenedlaethol

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (gan gynnwys Rhan 5 – safle ymddiriedaeth)
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7, Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol
- Canllawiau statudol ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref
- Canllawiau statudol i helpu plant a phobl ifanc rhag colli addysg
- Manyleb gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc *(Copi ar gael ar gais)*

## Polisïau a chanllawiau asiantaethau unigol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Na Chânt eu Hebrwng *(Copi ar gael ar gais)*
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – Na Chânt eu Hebrwng *(Copi ar gael ar gais)*

## CYMORTH CYFFREDINOL

Dim anghenion cymorth ychwanegol

Dyma deuluoedd y mae eu hanghenion iechyd a datblygiadol yn cael eu diwallu gan wasanaethau cyffredinol. Mae plant yn cael gofal cyson a digonol gan eu rhieni neu eu gofalwyr ac ni fyddai angen asesiad cymesur arnynt fel arfer ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar. Mae angen cymorth gan wasanaethau cyffredinol yn unig ar y mwyafrif o'r plant sy'n byw ym mhob ardal awdurdod lleol a dyma beth maen nhw'n ei gael.

## CYMORTH CYNNAR

Plant a theuluoedd â rhai anghenion wedi'u nodi a allai fod yn agored i niwed ac a allai fod angen cymorth ac ymyrraeth gynnar arnynt. Gall hyn fod o adnoddau a gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau gwirfoddol y trydydd sector a/neu asiantaethau unigol i atal anghenion a nodwyd rhag cynyddu i lefel lle mae angen ymyrraeth wedi'i thargedu neu ffurfiol. Nid oes angen atgyfeiriad i ofal cymdeithasol, ond efallai fod rhai teuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio i ofal cymdeithasol neu wedi cysylltu â hwy ac wedi cael eu cyfeirio at asiantaethau unigol a/neu wasanaethau ac adnoddau cymunedol anstatudol trwy wybodaeth, cyngor a chymorth.

## CYMORTH WEDI'I DARGEDU

Plant a theuluoedd ag anghenion mwy cymhleth yw'r rhain y gwyddys fod lefel y gofal a ddarperir iddynt yn effeithio ar eu datblygiad. Efallai fod asesiad cymesur wedi'i gwblhau gan ofal cymdeithasol sydd wedi dod i'r casgliad y gellir diwallu eu hanghenion yn y mwyaf o'r sefyllfaoedd trwy ymateb cydlynol ac wedi'i dargedu gan wasanaethau ataliol, heb yr angen am gynllun gofal a chymorth ffurfiol. Gellir darparu gwasanaethau o wasanaethau llesiant a chymunedol a/neu ochr yn ochr â gwasanaethau statudol mwy ffurfiol os oes angen. Gall teuluoedd sy'n bodloni'r meini prawf fod yn deuluoedd heb unrhyw ymyrraeth na chymorth blaenorol y mae eu hanghenion yn fwy acíwt neu a allai fod wedi bod yn cael cymorth cynnar o'r blaen. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r potensial y bydd angen a risgiau cronnus a chynyddol i deuluoedd sy'n cael cymorth wedi'i dargedu ac, er mai atal yw'r nod sylfaenol, mae'n anochel y bydd rhai teuluoedd yn mynd dros y drothwy o ran angen i ymyrraeth statudol ac efallai y bydd angen asesiad arnynt ar gyfer gofal a chymorth.

## ASESU AR GYFER GOFAL A CHYMORTH

Plant a theuluoedd ag anghenion lluosog cymhleth yw'r rhain sydd wedi cael eu hasesu'n ffurfiol fel rhai sy'n gymwys i gael gofal a chymorth. Bydd angen atgyfeiriad i ofal cymdeithasol bob amser. Gall plant fod mewn perygl o niwed sylweddol ac efallai fod gan deuluoedd anghenion sy'n gofyn am ymyrraeth ffurfiol barhaus a chydlynol gan asiantaethau statudol. Gall anghenion a risgiau fod yn gronnus neu'n uniongyrchol.

## CYMORTH AMDDIFFYNNOL

Dyma blant a theuluoedd sy'n cael eu hasesu y dyfarnir eu bod yn profi neu mewn perygl o niwed sylweddol ac y mae angen cymorth amddiffynnol a/neu ddiogelwch brys arnynt. Gall risgiau fod yn gronnus neu'n uniongyrchol. Gall plant a theuluoedd fod yn destun cynlluniau gofal a chymorth amddiffynnol neu achosion cyfreithiol a/neu y mae angen llety a lleoliadau amgen ffurfiol neu anffurfiol i'w diogelu.

# Sgyrsiau Amlasiantaeth a Rhannu Gwybodaeth

Dylai gweithwyr proffesiynol bob amser, pan fo modd, gyfarfod i drafod anghenion plentyn, unigolyn ifanc neu deulu cyn gynted â phosibl. Mae sgyrsiau amlasiantaeth yn caniatáu i ymarferydd sydd â phryder y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar blentyn gael trafodaeth o safon uchel:

- **i egluro natur y pryderon**
- **i archwilio anghenion y plentyn, yr unigolyn ifanc neu'r teulu**
- **i nodi'r ffyrdd mwyaf priodol o ymateb i'r pryderon a'r anghenion hyn**


Mae'r dull yn cryfhau ac yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chymorth cynnar er mwyn sicrhau'r cymorth cywir ar yr amser cywir. Nid yw'r dull hwn yn newid y ffordd yr ymdrinnir â phryderon ynghylch niwed sylweddol wrth y drws ffrynt ar adeg yr atgyfeiriad.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adolygiadau ymarfer plant cyhoeddedig yng Nghymru, ac adolygiadau diogelu ledled y DU, wedi tynnu sylw at fethiannau o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau mewn ffordd amserol a chymesur pan fydd plant mewn perygl o niwed neu'n byw mewn sefyllfaoedd peryglus. Nid oes modd cyfiawnhau methiant i rannu gwybodaeth a fydd yn caniatáu i gamau cael eu cymryd i amddiffyn plant.

Y thema gyson drwy gydol yr holl ganllawiau ar rannu gwybodaeth a deddfwriaeth yw bod yn rhaid i'r ddyletswydd i ddiogelu plant fod yn y blaenoriaeth pennaf, ac yn drech nag unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth GDPR. Gellir gwylio'r fideo a gynhyrchwyd gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n hyrwyddo ymdrechion rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau yma.

**Mae buddion y dull hwn fel a ganlyn:**

- ✔ yn seiliedig ar gydweithio a thrafodaethau
- ✔ yn hyrwyddo cyfrifoldeb a rennir a hyblygrwydd
- ✔ yn cydnabod cymhlethdod ac anghenion unigryw pob plentyn a theulu unigol
- ✔ yn lleihau rhagfarn wrth wneud penderfyniadau proffesiynol unigol ac asiantaethau drwy ddadl



# Y Saith Rheol Aur ar Gyfer Rhannu Gwybodaeth

**1. Cofiwch nad yw’r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr** i rannu gwybodaeth, ond yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu’n briodol.

**2. Byddwch yn agored ac yn onest** gyda’r unigolyn (a/neu ei deulu pan fo’n briodol) o’r cychwyn cyntaf ynglŷn â pham y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, neu y gallai cael ei rhannu, pa wybodaeth, ym mha ffordd ac â phwy, a cheisiwch ei gydsyniad, oni bai ei bod yn anniogel neu’n amhriodol gwneud hynny.

**3. Ceisiwch gyngor** os oes gennych unrhyw amheuaeth, heb ddatgelu hunaniaeth y person pan fo modd.

**4. Rhannwch gyda chydsyniad pan fo’n briodol** a, phan fo’n bosibl, parchwch ddymuniadau’r rheini nad ydynt yn cydsynio i rannu gwybodaeth gyfrinachol. Gallwch barhau i rannu gwybodaeth heb gydsyniad os, yn eich barn chi, gellir diystyru’r diffyg cydsyniad hwnnw er budd y cyhoedd. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau’r achos. Yn aml, bydd hyn yn gofyn am arfer barn broffesiynol, ond rhaid i ddiogelwch y plentyn fod y brif ystyriaeth bob amser.


**5. Ystyriwch ddiogelwch a llesiant:** seiliwch eich penderfyniadau rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a llesiant yr unigolyn ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithredoedd.

**6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, cywir, amserol a diogel:** gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth rydych chi’n ei rhannu yn angenrheidiol at y diben yr ydych chi’n ei rhannu ar ei gyfer, ei bod yn cael ei rhannu â’r bobl hynny y mae angen ei chael yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, a’i bod yn cael ei rhannu mewn modd amserol a diogel.

**7. Cadwch gofnod** o’ch penderfyniad a’r rhesymau drosto.

## Adnodd ategol rhannu gwybodaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gweler y ddolen isod i adnodd ategol/hyfforddi a ddatblygwyd gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy’n cefnogi a helpu ymarferwyr i fod yn hyderus wrth rannu gwybodaeth, pan fo’n briodol, wrth ymgymryd â gwaith diogelu – dolen



# Rhianta

(Anghenion rhieni/gofalwyr a sut y gallai hyn effeithio ar ofal y plentyn)



## Dangosyddion o angen

Nid yw'r dangosyddion a restrir yn gynhwysfawr, ond dylid eu defnyddio fel canllawiau i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch lefelau angen a risgiau a'r ymateb priodol. Dylid ystyried dangosyddion o angen a risgiau yng nghyd-destun ehangach bywyd teulu'r plentyn. Dylid arfer barn broffesiynol i bennu lefel yr angen a'r risg.

**Gall anghenion a risgiau fod yn uniongyrchol ac yn acíwt neu gallant fod yn gronnus a gwaethygu dros gyfnod o amser.**

# ANGHENION IECHYD RHIANT/GOFALWR

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

### 1

- Nid oedd unrhyw anghenion emosiynol o ran y rhiant/gofalwr wedi'u nodi yn dilyn yr enedigaeth.
- Unrhyw anghenion yn cael eu diwallu trwy fynediad at wasanaeth cymorth cyffredinol.

→

- Nid oedd unrhyw anghenion iechyd meddwl o ran y rhiant/ gofalwr wedi'u nodi.
- Gallu rhieni i reoli eu hiechyd meddwl eu hunain heb unrhyw effaith ar ofal y plentyn.

↓

### 2

- Dangosyddion rhieni/ gofalwyr sy'n cael trafferth addasu i fod yn rhiant.
- Arwyddion cynnar o iselder posibl.

→

- Mae anghenion iechyd meddwl lefel isel rhieni/ gofalwyr yn effeithio ar ofal y plentyn.
- Ffactorau amddiffynnol ar waith.

### 3

- Rhiant/gofalwr yn ei chael yn anodd addasu i fod yn rhiant / rhwydweithiau cymorth cyfyngedig.
- Iselder ôl-enedigol wedi'i nodi sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i rianta.

→

- Mae anghenion iechyd meddwl y rhieni/ gofalwyr yn effeithio ar ofal y plentyn.
- Rhwydweithiau cymorth cyfyngedig.

↓

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

### 4

- Angen/risg gronnus / sy'n gwaethygu a/neu gymorth wedi'i dargedu sy'n aneffeithiol.
- Iselder ôl-enedigol y rhiant/gofalwr yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a datblygiad y babi.

→

- Anghenion iechyd meddwl rhieni/gofalwyr yn sylweddol; cynllun triniaeth parhaus ar waith, angen gofal a chymorth i'r plentyn.
- Anghenion iechyd meddwl y rhieni/gofalwyr yn acíwt/sylweddol, gan roi'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

### 5

- Iselder ôl-enedigol difrifol y rhiant/gofalwr yn achosi risg ddifrifol iddyn nhw eu hunain a'r plentyn.
- Plentyn mewn perygl uchel o niwed sylweddol, neu eisoes yn ei brofi.

→

- Anghenion iechyd meddwl y rhieni/ gofalwyr yn acíwt/ sylweddol.
- Plentyn yn profi niwed sylweddol, neu mewn perygl uchel o'i brofi.

↓

- Nid oedd unrhyw anableddau gan y rhiant/gofalwr wedi'u nodi.
- Gallu rhieni i reoli eu hanghenion anabledd eu hunain heb unrhyw effaith ar ofal y plentyn.

---

- Anabledd rhiant wedi'i nodi.
- Angen rhywfaint o gymorth i ddiwallu anghenion y plentyn.

---

- Anabledd wedi'i nodi / ei ddiagnosio sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gallu i rianta.

---

- Angen/risg gronnus / sy'n gwaethygu a/neu gymorth wedi'i dargedu sy'n aneffeithiol.
- Anabledd rhiant/gofalwr sylweddol sy'n gofyn am gynllun / gofal a chymorth cydlynol ar gyfer y plentyn.
- Anableddau rhiant/gofalwr wedi'u nodi / wedi'u diagnosio; yn effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn, mewn perygl o effeithio arno / risg o niwed sylweddol.

---

- Anabledd wedi'i ddiagnosio sy'n effeithio'n ddifrifol ar ofal y plentyn.
- Plentyn mewn perygl uchel o niwed sylweddol, neu eisoes yn ei brofi.

## ATAL
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

## GWASANAETHAU STATUDOL
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

# CYDBERTHYNASAU AC YMDDYGIAD RHIENI/GOFALWR

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Nid oedd unrhyw anawsterau yn y berthynas rhwng rhiant a gofalwr wedi'u nodi.

- Anawsterau perthynas lefel isel – dim tystiolaeth bod hyn yn effeithio ar y plentyn.
- Asesu risg cam-drin domestig / stelcio a thrais ar sail anrhydedd – risg arferol.
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau – dim tystiolaeth bod hyn yn effeithio ar y plentyn.

- Adroddiadau o gam-drin domestig, cam-drin emosiynol, ymddygiad rheoli/gorfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y plentyn.
- Asesu risg cam-drin domestig / stelcio a thrais ar sail anrhydedd – risg ganolig.
- Y camddefnydd o alcohol a sylweddau'n effeithio'n uniongyrchol ar blentyn.

- Angen/risg gynyddol/ gronnus – cam-drin domestig / cam-drin emosiynol / ymddygiad rheolaethol/ gorfodaethol / cymorth wedi'i dargedu yn aneffeithiol.
- Cam-drin domestig difrifol parhaus / cam-drin emosiynol / rheolaeth drwy orfodaeth / stelcio.
- Asesu risg cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd – risg ganolig/uchel.
- Camddefnyddio sylweddau cronig.
- Plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

- Cam-drin domestig difrifol parhaus / cam-drin emosiynol / rheolaeth drwy orfodaeth / stelcio.
- Asesu risg cam-drin domestig / stelcio a thrais ar sail anrhydedd – risg uchel.
- Camddefnyddio sylweddau cronig.
- Plentyn mewn perygl uchel o niwed sylweddol, neu eisoes yn ei brofi.

# GOFAL CORFFOROL AC ESGEULUSTOD

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Anghenion y plentyn yn cael eu diwallu mewn amgylchedd glân, saff a diogel.

- Angen cymorth lefel isel â safonau hylendid, deiet, goruchwyliaeth, ysgogiad.

- Cymorth angenrheidiol wedi'i nodi gydag amodau cartref, deiet/maeth ac ysgogiad.
- Materion yn ymwneud â goruchwylio gan rieni.
- Damweiniau / anafiadau nad ydynt yn amheus.

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Angen/risg gronnus / sy'n gwaethygu a/neu gymorth wedi'i dargedu sy'n aneffeithiol.
- Tystiolaeth o esgeulustod, gan gynnwys diffyg bwyd a chynhesrwydd cyson, hylendid gwael cyson, a diffyg hanfodion eraill.
- Anafiadau difrifol o ganlyniad i oruchwylio annigonol.
- Anaf anesboniadwy i blentyn nad yw'n gallu symud.
- Mewn perygl o niwed sylweddol.

- Esgeulustod parhaus sylweddol yn effeithio ar ddatblygiad cyffredinol.
- Plentyn ifanc gartref ar ei ben ei hun heb oruchwyliaeth gan oedolyn yn profi niwed sylweddol neu mewn perygl o niwed sylweddol.
- Nid yw effaith gronnol esgeulustod hirdymor wedi'i gwella ar ôl ymyrraeth amlasiantaethol gydlynol.

- Trefniadau goruchwylio/gofal diogel ar waith ar gyfer y plentyn.

- Mae'r plentyn yn cael ei adael gyda nifer o oedolion anhysbys.

- Pryder y gall plentyn gael cyswllt ag unigolion sy'n peri perygl o niwed corfforol neu rywiol i blant.

- Plentyn sy'n agored i gyswllt ag unigolion sy'n peri risg o niwed corfforol neu rywiol, ond nid oes niwed hysbys wedi'i achosi i'r plentyn.

- Rhiant yn methu atal oedolion y gwyddys eu bod yn peri risg uchel o niwed corfforol a rhywiol i blant rhag cael mynediad i'r aelwyd.
- Plentyn wedi'i adael yng ngofal oedolyn y gwyddys neu y credir ei fod yn peri niwed corfforol a rhywiol uchel i blant.
- Plentyn wedi'i adael ar ei ben ei hun heb oruchwyliaeth.
- Plentyn mewn perygl uchel o brofi niwed sylweddol neu eisoes yn ei brofi.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

# DISGYBLAETH, COSB GORFFOROL A CHAM-DRIN

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Disgyblaeth sy'n briodol i oedran o fewn y gyfraith.

- Mae angen cymorth i ddarparu rhianta/disgyblaeth/ffiniau priodol i reoli ymddygiad y plentyn.

- Dulliau disgyblu amhriodol, e.e. cosb gorfforol – ni fu unrhyw niwed sylweddol.
- Cynllun gwaredu y tu allan i'r llys wedi'i ddefnyddio – Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Risg gynyddol/gronnus o ran defnyddio cosb gorfforol i reoli ymddygiad / cymorth wedi'i dargedu'n aneffeithiol.
- Defnydd parhaus o gosb gorfforol / risg o niwed sylweddol.
- Cam-drin corfforol / niwed sylweddol wedi digwydd / mesurau rheoli risg digonol ar waith.
- Anaf anesboniadwy i blentyn nad yw'n gallu symud.

- Cam-drin corfforol i blentyn, gan achosi anaf difrifol.
- Cam-drin corfforol parhaus / plentyn yn profi niwed sylweddol / mewn perygl uchel o niwed sylweddol.
- Anaf difrifol heb ei egluro neu anaf nad yw'n ddamweiniol.
- Rhieni/gofalwyr yn atal rhoi bwyd i blentyn fel dull o gosbi i reoli ymddygiad plentyn.

# CAM-DRIN RHYWIOL

## ATAL
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

- Mae gan rieni/gofalwyr wybodaeth briodol am berthnasoedd iach / iechyd rhywiol i gefnogi'r plentyn.

- Rhieni/gofalwyr – un achos o ymddygiad rhywiol amhriodol wedi'i asesu fel un nad yw'n peri risg barhaus i'r plentyn.
- Mae plentyn dan 16 oed yn defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol a dull atal cenhedlu (ni nodwyd unrhyw gamddefnydd o bŵer).

- Pryderon heb eu profi ynghylch ymddygiad rhywiol amhriodol.
- Ffiniau teulu aneglur o ran cydberthnasau/ dynameg rywiol/iach.
- Amgylchedd yn effeithio ar ddatblygiad rhywiol iach/normal.

## GWASANAETHAU STATUDOL
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Dangosyddion risg o gam-drin rhywiol heb ddatgeliad/honiad uniongyrchol.
- Amheuaeth o gam-drin plentyn yn rhywiol / camfanteisio'n rhywiol ar blentyn.
- Amheuaeth o weithgarwch rhywiol rhwng cyfoedion mewn plentyn dros 13 oed.
- Mae plentyn dan 16 oed yn cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol ac atal cenhedlu. (Pryderon ynghylch camddefnyddio pŵer / dynameg perthynas.) Mae amgylchiadau'n dangos risg o niwed sylweddol.

- Datgeliad/honiad uniongyrchol o gam-drin rhywiol / ymosodiad gan blentyn.
- Tystiolaeth o gam-drin plant yn rhywiol / camfanteisio'n rhywiol ar blentyn.
- Troseddwr rhyw/ treisgar cofrestredig o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd yn byw ar yr aelwyd.
- Plentyn o dan 13 oed yn ymgymryd â gweithgarwch rhywiol.
- Plentyn dan 13 oed – haint a drosglwyddir yn rhywiol.

# CANLLAWIAU A FFINIAU

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Mae'r plentyn yn cael arweiniad a ffiniau priodol.

→

- Nid oes gan y plentyn gyfrifoldebau gofalu.

---

- Angen cymorth cynnar gyda threfn arferol o ran rheoli ymddygiad/ ffiniau.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol / cysylltiadau â chyfoedion.

→

- Mae gan y plentyn gyfrifoldebau gofalu am aelodau'r teulu sydd ag anghenion a nodwyd – dim effaith sylweddol ar ddatblygiad.

---

- Ffiniau anghyson.
- Trefn anhrefnus / rheolaeth wael o'r cartref yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn.

→

- Disgwyliadau o ran gofalu sy'n anaddas i oedran y plentyn neu ofalwr ifanc y mae angen cymorth arnynt.

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Diffyg gofal a goruchwyliaeth briodol – plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

→

- Cyfrifoldebau nad ydynt yn addas i oedran sy'n effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad plentyn neu ofalwr ifanc.

---

- Diffyg ffiniau a goruchwyliaeth briodol yn arwain at blentyn yn profi / mewn perygl uchel o niwed sylweddol.

→

- Disgwylir i'r plentyn ddarparu cyfrifoldebau nad ydynt yn briodol i'w oedran i blant / oedolion yn y cartref / y teulu, gan ei roi mewn perygl uchel o niwed sylweddol / o brofi niwed sylweddol.

# ARFERION A CHREDOAU DIWYLLIANNOL

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Dim anghenion/pryderon ynghylch arferion a chredoau diwylliannol.

- Cysylltiadau teuluol â gwlad lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei ymarfer.
- Plentyn â chysylltiadau teuluol ag anffurfio organau cenhedlu benywod sydd ar goll o addysg heb gymeradwyaeth.
- Rhaid dilyn proses adrodd gorfodol Cymru gyfan.

- Mam wedi'i nodi fel dioddefwr anffurfio organau cenhedlu benywod, ac mae ganddi blentyn benywaidd.
- Hanes anffurfio organau cenhedlu benywod mewn perthynas â'r teulu / plant benywaidd.
- Rhieni/gofalwyr y gwyddys eu bod yn uniaethu ag arferion diwylliannol niweidiol, e.e. hud du, allfwrw, meddiannu gan ysbrydion, enwaedu gwrywaidd anniogel.
- Rhaid dilyn proses adrodd gorfodol Cymru gyfan.

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Cysylltiadau teuluol hysbys ag anffurfio organau cenhedlu benywod – adroddiadau eu bod yn mynd allan o'r wlad am gyfnod hir gyda'r plentyn.
- Risg o arferion anghyfreithlon, e.e. smwddio bronnau / priodas dan orfod.
- Risg o arferion diwylliannol niweidiol, e.e. hud du, allfwrw, meddiannu gan ysbrydion, enwaedu gwrywaidd anniogel.
- Mae'r plentyn wedi dychwelyd o wlad lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei ymarfer ar ôl absenoldeb hir – newid mewn ymddygiad/gwedd.
- Risg bosibl o gam-drin/ trais ar sail anrhydedd.

- Adrodd y bydd y plentyn yn cael ei gymryd y tu allan i'r wlad / wedi cael ei gymryd y tu allan i'r wlad ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Tystiolaeth o gyswllt ag arferion anghyfreithlon / risg uniongyrchol ohonynt, e.e. anffurfio organau cenhedlu benywod / smwddio bronnau / priodas dan orfod.
- Tystiolaeth o fod wedi bod yn agored i arferion diwylliannol niweidiol, e.e. hud du, allfwrw, meddiannu gan ysbrydion, neu enwaedu gwrywaidd anniogel.
- Mae plentyn yn ddioddefwr cam-drin/trais ar sail anrhydedd, neu mewn risg uchel o'r rheini.

# Iechyd



## Dangosyddion o angen

Nid yw'r dangosyddion a restrir yn gynhwysfawr, ond dylid eu defnyddio fel canllawiau i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch lefelau angen a risgiau a'r ymateb priodol. Dylid ystyried dangosyddion o angen a risgiau yng nghyd-destun ehangach bywyd teulu'r plentyn. Dylid arfer barn broffesiynol i bennu lefel yr angen a'r risg.

**Gall anghenion a risgiau fod yn uniongyrchol ac yn acíwt neu gallant fod yn gronnus a gwaethygu dros gyfnod o amser.**

# ANGHENION IECHYD

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

| ATAL | ATAL | ATAL | GWASANAETHAU STATUDOL | GWASANAETHAU STATUDOL |
|---|---|---|---|---|
| • Plentyn yn iach / yn defnyddio gwasanaethau iechyd cyffredinol.<br>• Penderfyniadau ar sail gwybodaeth wedi'u gwneud ar imiwneiddiadau / asesiadau meddygol ar gyfer y plentyn. | • Cymorth i hyrwyddo ffordd iach o fyw, e.e. ymarfer corff a gweithgarwch corfforol / mynediad at ofal iechyd cyffredinol.<br>• Ni chafodd ei gymryd / dim mynediad at ymarferwyr/ gwasanaethau iechyd (monitro iechyd asiantaeth unigol ar waith). | • Anafiadau damweiniol dro ar ôl tro sy'n gofyn am fynd i'r ysbyty / aros yn yr ysbyty / goruchwyliaeth wael.<br>• "Na Chânt eu Hebrwng" – mynediad wedi'i wrthod i ymarferwyr/ gwasanaethau iechyd (yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adroddiad diogelu). | • Angen/risg gynyddol/ gronnus o ran anafiadau dro ar ôl tro nad ydynt yn ddamweiniol / goruchwyliaeth wael.<br>• Na Chânt eu Hebrwng – risg gronnus/gynyddol (ymddieithrio rhag gwasanaethau iechyd) yn effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn.<br>• Plentyn mewn perygl o niwed sylweddol. | • Anafiadau difrifol heb eu hesbonio.<br>• Methiant parhaus i gael mynediad at ofal/ gwasanaethau meddygol.<br>• Problemau iechyd cymhleth y gellir eu priodoli i ddiffyg mynediad at wasanaethau iechyd.<br>• Plentyn mewn perygl uchel o niwed sylweddol neu eisoes yn profi niwed sylweddol o ganlyniad i hyn. |
| | • Rhieni/gofalwyr gorbryderus sy'n chwilio am lefelau uchel o gymorth ynghylch iechyd a datblygiad plentyn. | • Golwg nad yw'n taro deuddeg.<br>• Mae'r rhiant/gofalwr yn dangos lefelau uchel o bryder ynghylch iechyd a datblygiad y plentyn. | • Angen/risg gronnus/ waethygol a/neu olwg nad yw'n taro deuddeg sy'n effeithio ar iechyd a datblygiad y plentyn.<br>• Amheuaeth o salwch wedi'i ffugio neu wedi'i achosi gan eraill. | • Tystiolaeth o salwch wedi'i ffugio neu wedi'i achosi gan eraill.<br>• Mae'r plentyn yn profi niwed neu mewn perygl uchel o niwed. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Plentyn yn cyflawni pob carreg filltir datblygiad.<br>• Dim anghenion/ anableddau wedi'u nodi.<br>• Anabledd sy'n cael ei reoli drwy wasanaethau cyffredinol. | • Oedi o ran cyrraedd cerrig milltir datblygiad.<br>• Mân anghenion iechyd parhaus yn effeithio ar ddatblygiad.<br>• Cymorth i hyrwyddo anghenion sy'n deillio o anabledd. | • Ddim yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd – sy'n effeithio ar ddatblygiad.<br>• Cynigion cynnar o gymorth wedi'i wrthod.<br>• Angen cymorth i ddiwallu anghenion ychwanegol plentyn ag anabledd. | • Anabledd sylweddol wedi'i nodi sy'n gofyn am gynllun amlasiantaethol cydlynol.<br>• Methiant parhaus i ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion/ anabledd sy'n effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad – yn profi niwed sylweddol neu mewn perygl o niwed sylweddol. | • Rhieni neu ofalwyr yn gwrthod cynigion o gymorth / yn methu'n gyson â diwallu anghenion cymhleth plentyn ac anabledd sy'n arwain at niwed sylweddol.<br>• Plentyn yn profi niwed sylweddol, neu mewn perygl uchel o'i brofi. |
| • Mae gan y plentyn ddeiet digonol/ maethlon ac mae'n cynnal pwysau iach. | • Mae angen cyngor ar ddeiet a maeth i gefnogi twf, pwysau a datblygiad iach. | • Deiet gwael/cyfyngedig yn effeithio ar dwf, pwysau a datblygiad iach.<br>• Cynnydd neu leihad sylweddol nad yw wedi'i esbonio yn yr ystod ganraddol ar gyfer pwysau – cymorth cynnar wedi'i wrthod.<br>• Anhwylder bwyta.<br>• Gordewdra. | • Methiant anorganig anesboniadwy i ffynnu.<br>• Anhwylder bwyta / gordewdra yn effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad / mewn perygl o niwed sylweddol. | • Methiant anorganig i ffynnu oherwydd esgeulustod.<br>• Anhwylder bwyta / gordewdra lle mae niwed sylweddol yn digwydd neu'n peryglu bywyd.<br>• Mae'r plentyn yn profi niwed sylweddol neu mewn perygl uchel o niwed sylweddol. |

**ATAL**
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

**GWASANAETHAU STATUDOL**
Gofal a chymorth/amddiffyniad

- Beichiogrwydd – cael mynediad at wasanaethau cyffredinol.

- Pryderon ynghylch ymgysylltu â gofal cynenedigol ac ôl-enedigol / apwyntiadau a gollwyd.

- Ymgysylltu gwael â gofal cynenedigol/ôl-enedigol / colli apwyntiadau'n aml.
- Beichiogrwydd yn achos plentyn sy'n agored i niwed dros 13 oed.
- Digartrefedd / camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl neu gorfforol.
- Hanes blaenorol o gamddefnyddio sylweddau.

- Ymgysylltu gwael parhaus/cyson â gofal cyn-enedigol/ôl-enedigol.
- Pryderon sylweddol ynghylch ffordd o fyw / rhianta. Risg gynyddol/gronnus ynghylch ymddygiad peryglus rhieni, h.y. camddefnyddio sylweddau / cam-drin domestig, gan roi plentyn yn y groth mewn perygl o niwed sylweddol.
- Asesiad cynenedigol yn ofynnol.

- Mae mam feichiog yn esgeuluso cael gofal cynenedigol – risg gronnus/gynyddol o ran ffordd o fyw sy'n dynodi tebygolrwydd uchel o niwed sylweddol adeg genedigaeth.
- Mae asesiad cyn-geni yn dangos bod plentyn yn y groth mewn perygl o niwed sylweddol.
- Niwed/ymosodiad corfforol difrifol yn ystod beichiogrwydd.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

# Iechyd Emosiynol



## Dangosyddion o angen

Nid yw'r dangosyddion a restrir yn gynhwysfawr, ond dylid eu defnyddio fel canllawiau i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch lefelau angen a risgiau a'r ymateb priodol. Dylid ystyried dangosyddion o angen a risgiau yng nghyd-destun ehangach bywyd teulu'r plentyn. Dylid arfer barn broffesiynol i bennu lefel yr angen a'r risg.

**Gall anghenion a risgiau fod yn uniongyrchol ac yn acíwt neu gallant fod yn gronnus a gwaethygu dros gyfnod o amser.**

# ANGHENION EMOSIYNOL A LLESIANT

## ATAL
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

- Mae gan y plentyn amgylchedd teulu sefydlog / ymlyniadau iach.

- Mae angen annog y rhiant/gofalwr i fod yn gadarnhaol / rhoi canmoliaeth i'r plentyn.
- Mae gan y plentyn lefel isel o hunan-barch.
- Mae'r plentyn yn dioddef bwlio a/neu'n bwlio eraill.

- Ymlyniadau gwael.
- Nid yw'r rhiant/gofalwr ar gael yn emosiynol.
- Ychydig o ganmoliaeth neu gadarnhad cadarnhaol.
- Darparu gofal anghyson.

## GWASANAETHAU STATUDOL
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Angen/risg gynyddol/ gronnus, gwasanaethau wedi'u targedu'n aneffeithiol.
- Dim llawer o gynhesrwydd, beirniadaeth uchel wrth rianta / yr amgylchedd yn effeithio'n sylweddol ar iechyd a datblygiad emosiynol y plentyn.
- Anawsterau ymlyniad yn cael effaith ddofn ar ddatblygiad a chydberthnasau plentyn.

- Cydberthnasau / chwalfa deuluol / plentyn yn profi niwed sylweddol neu ddatblygiad wedi'i amharu'n sylweddol.
- Creulondeb bwriadol/parhaus neu gamdriniaeth emosiynol sy'n arwain at niwed sylweddol.
- Amgylchedd parhaus o gynhesrwydd isel / beirniadaeth uchel / bod yn fwch dihangol yn cael effaith ddofn ar ddatblygiad.

- Ffiniau a chanllawiau cyson yn cael eu darparu mewn amgylchedd priodol.

- Mae angen cymorth i ddarparu ffiniau sy'n briodol i'r oedran i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

- Nid yw ffiniau priodol mewn amgylchedd diogel/sicr yn cael eu darparu'n gyson.
- Anghenion / ffordd o fyw'r rhiant/gofalwr ei hun yn cael blaenoriaeth uwchlaw anghenion y plentyn.
- Gofal a ffiniau anghyson yn effeithio ar ddatblygiad ac ymddygiad plentyn.
- Rhai digwyddiadau o ymddygiad peryglus.

- Rhiant/gofalwr yn methu â barnu sefyllfaoedd peryglus / gosod ffiniau priodol yn barhaus.
- Rhiant/gofalwr yn rhoi eu hanghenion eu hunain uwchlaw anghenion y plentyn yn barhaus, gan roi'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.
- Achlysuron mynych sy'n cynyddu'r risg o ymddygiad peryglus / mewn perygl o niwed sylweddol.

- Mae'r plentyn y tu hwnt i reolaeth rhieni ac yn cyflwyno risg ddifrifol o niwed iddo'i hun ac eraill oherwydd ymddygiadau peryglus.
- Mae angen amddiffyn y plentyn ar unwaith oherwydd bod y sefyllfa'n gwaethygu ac yn peri perygl uniongyrchol o niwed sylweddol.

- Mae gan y plentyn fynediad at weithgareddau cyson a chadarnhaol – iach.
- Datblygiad emosiynol wedi'i gefnogi trwy weithgareddau gyda chyfoedion / gweithgareddau cymdeithasol.

- Mae angen cymorth i gefnogi mynediad plentyn at weithgareddau sy'n briodol i'w oedran, adnoddau cymunedol, rhwydwaith cymdeithasol a chyfoedion.

- Mae gan y plentyn lefel isel o hunan-barch / mae'n agored i gamfanteisio.
- Yn methu cael mynediad at weithgareddau ac adnoddau cymdeithasol priodol.

- Mae gan y plentyn ymdeimlad negyddol o'i hun a'i alluoedd / hunan-barch isel / ymddygiad negyddol.
- Pryder ynghylch camfanteisio / meithrin perthynas amhriodol / risg o niwed sylweddol.
- Plentyn wedi'i atal rhag cael mynediad at weithgareddau ac adnoddau cymdeithasol priodol sy'n effeithio'n sylweddol ar ei ddatblygiad / risg o niwed sylweddol.

- Plentyn yn profi / wedi dioddef camfanteisio.
- Mae'r plentyn yn aml yn arddangos ymddygiad/gweithgareddau negyddol sy'n ei roi ei hun neu eraill mewn perygl uniongyrchol.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

- Mae gan y plentyn iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol.
- Anghenion iechyd meddwl / llesiant lefel isel sy'n cael eu diwallu trwy wasanaethau cyffredinol.

- Pryderon iechyd meddwl / anghenion llesiant plentyn sy'n effeithio ar ei allu i weithredu bob dydd.
- Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – gwasanaeth mewngymorth gan yr ysgol.
- Rhieni/gofalwyr yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ysgol/iechyd i ddiwallu anghenion iechyd meddwl / llesiant.
- Asesiad/ymyrraeth Cod E gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – risg isel o niwed.

- Pryderon iechyd meddwl / anghenion llesiant sy'n gofyn am atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- Asesiad/ymyrraeth Cod D gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – risg gymedrol o niwed.
- Mae'r plentyn wedi mynegi meddyliau o hunan-niweidio, ond dim tystiolaeth o weithredu ar y rhain.
- Plentyn yn hunan-niweidio, gan achosi anafiadau bach/ cymedrol, ac mae'r rhiant/gofalwr yn ymateb yn briodol.

- Mae gan y plentyn angen iechyd meddwl parhaus sylweddol sy'n gofyn am ymyrraeth arbenigol yn y gymuned.
- Asesiad/ymyrraeth Cod C gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – risg uchel o niwed i'w hun neu eraill.
- Nid yw rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan mewn triniaeth iechyd meddwl, gan gynyddu'r risg / dirywiad a niwed sylweddol.
- Mae'r plentyn wedi mynegi syniadau am hunanladdiad heb unrhyw gynllun y gwyddys amdano o fynd ati i'w ymgeisio.

- Asesiad/ymyrraeth Cod A/B gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc – argyfwng / risg uchel o niwed.
- Plentyn yn gwrthod gofal meddygol, neu yn yr ysbyty, yn dilyn digwyddiad sy'n peryglu bywyd o hunan-niweidio neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.
- Risg gynyddol/gronnus ynghylch ymddygiadau plentyn sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl sy'n arwain at niwed/perygl sylweddol i fywyd.
- Mae'r plentyn wedi mynegi meddyliau o hunanladdiad, gyda'r bwriad i'w ymgeisio.
- Mae gan y plentyn syniadau parhaus am hunanladdiad yn dilyn ymgais i gyflawni hunanladdiad.
- Mae'r plentyn yn yr ysbyty yn dilyn digwyddiad o hunan-niweidio sylweddol neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

- Mynediad at / defnydd o wefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol sy’n briodol i’r oedran.

---

- Plentyn yn cael mynediad at gynnwys/deunyddiau niweidiol / sy’n peri pryder sy’n gysylltiedig â gwefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol.
- Dim tystiolaeth o niwed i’w hunan / risg i eraill.

---

- Plentyn yn cael mynediad at ddeunydd/cynnwys niweidiol / sy’n peri pryder sy’n gysylltiedig â gwefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol.
- Dim tystiolaeth o weithredu ar y rhain na risg uniongyrchol o niwed i’w hun neu i eraill.
- Ymgysylltu rhieni/ gofalwyr â gwasanaethau.

---

- Mae’n hysbys bod y plentyn yn cyrchu gwefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol niweidiol / sy’n peri pryder i hwyluso niwed iddo’i hun neu i eraill.
- Ymgysylltu gwael gan ofalwyr/rhieni ag asiantaethau i leihau’r risg o niwed.
- Risg bosibl o niwed i’w hun/eraill wedi’i nodi.

---

- Plentyn yn gweithredu ar fynediad at wefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol niweidiol / sy’n peri pryder gyda risg uchel wedi’i nodi o niwed sylweddol iddo’i hun / i eraill.
- Mae plentyn wedi dioddef niwed sylweddol / achosi niwed difrifol i un arall o ganlyniad uniongyrchol i gael mynediad at wefannau rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol niweidiol.

---

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**
(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

# HUNANOFAL AC ANNIBYNIAETH

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Mae'r plentyn yn dangos hunanofal, golwg a hylendid personol sy'n briodol i'w oedran.

- Mae angen cymorth i hyrwyddo hunanofal a hylendid personol sy'n briodol i'w oedran.

- Mae hunanofal / hylendid personol gwael y plentyn yn effeithio ar lesiant.
- Hunanofal / hylendid personol gwael y plentyn yn effeithio ar gydberthnasau â chyfoedion.
- Mae hunanofal / hylendid personol plentyn yn arwain at ynysigrwydd cymdeithasol / allgáu gan gyfoedion.

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Golwg wael a blêr gyson y plentyn / hylendid / sgiliau hunanofal gwael yn effeithio'n sylweddol ar gydberthnasau â chyfoedion a chydberthnasau cymdeithasol.
- Cynyddodd lefel agored i niwed y plentyn yn sylweddol oherwydd lefelau uchel o allgáu cymdeithasol ac ynysigrwydd.
- Mae'r plentyn mewn perygl o niwed sylweddol.

- Mae gan y plentyn wybodaeth sy’n briodol i’w oedran am gydberthnasau iach.
- Mae’r plentyn yn gallu gwahaniaethu rhwng cysylltiadau ‘diogel’ ac ‘anniogel’.

- Dechrau gweithgarwch rhywiol â chydsyniad yn gynnar.
- Unigolyn ifanc sy’n cael profiadau rhywiol yn cydsynio sy’n ymddangos rhai ymddygiadau cymryd risg, e.e. defnydd anghyson o ddulliau atal cenhedlu a risg o ddod yn feichiog.

- Unigolyn ifanc sy’n cael profiadau rhywiol yn cydsynio sy’n ymddangos ymddygiadau cymryd risg yn fynych, e.e. defnydd anghyson o ddulliau atal cenhedlu a risg o ddod yn feichiog.
- Pryderon ynghylch natur orfodaethol a rheolaethol perthynas rywiol.

- Mae gan y plentyn ymddygiad rhywioledig anesboniadwy ac anaddas.
- Unigolyn ifanc sy’n cael profiadau rhywiol gydag ymddygiadau cymryd risg yn aml sy’n arwain at ddod yn feichiog.
- Pryderon bod perthynas rywiol yn anghydsyniol, a/neu fod dangosyddion o reolaeth drwy orfodaeth.
- Plentyn yn ymwneud ag ymddygiadau rhywiol negyddol a niweidiol, neu’n eu dioddef, sy’n gysylltiedig â defnyddio’r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.
- Tystiolaeth o ddeunydd rhywiol yn cael ei rannu heb ganiatâd.

- Plentyn dan 13 oed yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol.
- Mae unigolyn ifanc yn cael ei gam-drin yn rhywiol.
- Plentyn / unigolyn ifanc yn honni y cafodd ei dreisio / ymosodiad rhywiol.
- Mae plentyn yn cael ei orfodi’n rheolaidd i anfon/derbyn delweddau anweddus.
- Mae plentyn yn cael ei orfodi i gyfarfod wyneb yn wyneb at ddibenion rhywiol.
- Mae angen tynnu dyfeisiau plant, a chyfyngu mynediad bob amser.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

- Ymateb sy'n briodol i'r oedran i deimladau, gweithredoedd a gwydnwch.
- Dim digwyddiadau o droseddu a/ neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae ymddygiad y plentyn yn briodol i'w oedran o fewn y paramedrau disgwyliedig.

- Nid oes gan y plentyn hanes o fod ar goll.

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n dod i'r amlwg a/neu droseddu lefel isel.
- Ymddygiad aflonyddgar/heriol yn yr ysgol neu yn y gymdogaeth.
- Ymyrraeth atal troseddu – datrysiadau lefel isel cyn y llys.

- Mae'r plentyn yn mynegi meddyliau am redeg i ffwrdd – angen cyngor/cymorth rhiant/ gofalwr.
- Un achlysur o fod wedi mynd ar goll.

- Digwyddiadau y gwyddys amdanynt a pharhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gofyn am ymyrraeth broffesiynol.
- Digwyddiadau y gwyddys amdanynt / yr adroddwyd amdanynt o greulondeb/ niwed i anifeiliaid.
- Ymddygiad troseddol yn arwain at gyhuddiadau.
- Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar waith.
- Datrysiadau cyn y llys a/neu ymyrraeth wedi'i thargedu.
- Ymyrraeth cyfiawnder ieuenctid fer i ganolig a orchmynnwyd gan y llys.

- Adroddwyd am nifer o achosion o fynd ar goll o'r cartref, ac roedd angen cymorth ac ymyrraeth ymarferwyr arnynt.

- Ymddygiad/troseddu yn cynyddu / risg gronnus o niwed sylweddol i'w hun ac eraill.
- Torri cyrffyw yn barhaus ac ymddygiadau sy'n golygu ei fod yn risg uchel i'w hun ac i eraill.
- Plentyn ar fechnïaeth am drosedd ddifrifol.
- Wedi'i roi yn ôl yng ngofal yr awdurdod lleol gan lys troseddol wrth aros am achos llys.
- Goruchwyliaeth gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid – lefel gymedrol i uchel.

- Achlysuron mynych o fod ar goll / achlysuron o fod ar goll am gyfnod estynedig.
- Pryderon ynghylch diogelwch a llesiant corfforol ac emosiynol.
- Risg o niwed sylweddol.

- Mae ymddygiad plentyn / unigolyn ifanc yn rhoi ei hun, neu eraill, mewn perygl uniongyrchol o niwed difrifol.
- Mae'n hysbys bod plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gang, gan arwain at anafiadau a achosir gan arfau.
- Mae angen llety diogel ar y plentyn trwy orchymyn llys.
- Ymyrraeth/ goruchwyliaeth ddwys yn y gymuned / mewn carchar gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.
- Y tu hwnt i reolaeth rhieni ac yn peri risg o niwed i'w hun ac eraill.

- Mae'r plentyn y tu hwnt i reolaeth rhieni / ar goll yn fynych / am gyfnodau estynedig.
- Mewn perygl uchel o niwed sylweddol neu eisoes yn ei brofi.

**ATAL**
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

**GWASANAETHAU STATUDOL**
Gofal a chymorth/amddiffyniad

- Nid oes gan y plentyn hanes o gamddefnyddio sylweddau.

- Camddefnyddio lefel isel o alcohol/sylweddau gan y plentyn.

- Camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon parhaus y gwyddys amdano yn effeithio ar lesiant/lles.
- Ymddygiad peryglus sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau y gwyddys amdano.
- Tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau/alcohol yn ystod beichiogrwydd.

- Risg gynyddol/gronnus – camddefnyddio sylweddau / risg o niwed sylweddol.
- Camddefnyddio sylweddau anghyfreithlon anhrefnus a pharhaus yn effeithio'n sylweddol ar ddatblygiad a llesiant / risg o niwed sylweddol.
- Mae plentyn yn mynd i'r ysbyty oherwydd camddefnyddio sylweddau/alcohol.
- Tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau/alcohol yn ystod beichiogrwydd.

- Defnydd cronig ac anhrefnus o sylweddau / gorddos – niwed sylweddol uniongyrchol a/neu risg i fywyd.

**ATAL**
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

**GWASANAETHAU STATUDOL**
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

# Ffactorau cymdeithasolac amgylcheddol



## Dangosyddion o angen

Nid yw’r dangosyddion a restrir yn gynhwysfawr, ond dylid eu defnyddio fel canllawiau i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch lefelau angen a risgiau a’r ymateb priodol. Dylid ystyried dangosyddion o angen a risgiau yng nghyd-destun ehangach bywyd teulu’r plentyn. Dylid arfer barn broffesiynol i bennu lefel yr angen a’r risg.

**Gall anghenion a risgiau fod yn uniongyrchol ac yn acíwt neu gallant fod yn gronnus a gwaethygu dros gyfnod o amser.**

# TAI, CYFLOGAETH A CHYLLID

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

### Atal (1)

- Tai/llety digonol.
- Dim anghenion o ran tai/llety / amgylchedd byw.

→

- Mae gan blentyn a theulu hawl gyfreithiol i fyw yn y wlad am gyfnod amhenodol a hawliau llawn i gyflogaeth ac arian cyhoeddus.

### Atal (2)

- Mewn perygl o gael ei droi allan / digartrefedd.
- Llety dros dro.
- Tai mewn cyflwr gwael a/neu'n orlawn.

→

- Hawl dros dro i aros a/neu fynediad cyfyngedig at arian cyhoeddus a/neu'r hawl i weithio ac angen cymorth.

### Atal (3)

- Amodau gwael a/neu orlawn.
- Digartrefedd.
- Llety dros dro (16-17 oed).
- Risgiau iechyd a diogelwch wedi'u nodi yng nghartref y plentyn.

→

- Mewn perygl o gael ei symud o'r wlad yn anwirfoddol / allgludo.
- Adnoddau ariannol cyfyngedig / ni roddir cymorth arian cyhoeddus iddo.

### Gwasanaethau Statudol (1)

- Mae angen/risg gynyddol/gronnus ynghylch amodau cartref gwael yn peri risg o niwed sylweddol i'r plentyn.
- Mae risgiau iechyd a diogelwch o fewn amgylchedd y cartref yn peri risg uniongyrchol i'r plentyn.

→

- Mae plentyn mewn perygl o niwed sylweddol oherwydd ei statws mewnfudo.
- Ni roddir cymorth arian cyhoeddus iddo.

### Gwasanaethau Statudol (2)

- Amodau cartref peryglus hirdymor/ parhaus sy'n gwaethygu / yn gronnol ac yn achosi niwed corfforol ac emosiynol sylweddol.
- Mae amodau peryglus yn y cartref yn peri risg amgylcheddol/ iechyd difrifol a/neu uniongyrchol i blentyn.
- Mae amodau cartref peryglus yn cyflwyno risg uchel o niwed difrifol / risg i fywyd ar hyn o bryd.

→

- Mae plentyn yn cael ei gadw yn y ddalfa.
- Mewn perygl o gael ei allgludo.
- Ceisiwr lloches ar ei ben ei hun.

# ADNODDAU CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Mewn perygl o gael ei dargedu a/neu ei baratoi ar gyfer camfanteisio troseddol.<br>• Dangosyddion posibl o gamfanteisio, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. | • Plentyn yn cael ei dargedu / ei orfodi'n weithredol gyda'r bwriad o gamfanteisio arno.<br>• Risg o gamfanteisio, masnachu mewn caethwasiaeth fodern, a/neu gamfanteisio troseddol/rhywiol. | • Dioddefwr camfanteisio, masnachu pobl a/neu gaethwasiaeth fodern.<br>• Risg uchel/barhaus o niwed sylweddol. |
| • Nid yw'r plentyn yn ymwneud â sefydliadau gwaharddedig neu nid oes ganddo gysylltiadau â hwy.<br>• Dim safbwyntiau eithafol.<br>• Defnydd priodol o'r rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol. | • Mae'r plentyn yn siarad am safbwyntiau eithafol y teulu.<br>• Mewn perygl o ddod yn agored i ideoleg eithafol drwy'r rhyngrwyd / cyfryngau cymdeithasol.<br>• Ystyried atgyfeiriad i banel Channel. | • Mae'r plentyn yn mynegi ei gefnogaeth i safbwyntiau eithafol/treisgar.<br>• Gwrthod cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol sy'n herio ei farn grefyddol neu wleidyddol.<br>• Yn ymosodol ac yn fygythiol i eraill nad ydynt yn rhannu'r un credoau ag ef.<br>• Angen atgyfeiriad i banel Channel. | • Risg gynyddol/gronnus o ran safbwyntiau/ymddygiad eithafol/treisgar.<br>• Risg a nodwyd o radicaleiddio neu ymwneud ag eithafiaeth.<br>• Wedi gweld gwefannau eithafol ac yn rhannu rhai o'r un safbwyntiau â hwy.<br>• Plentyn yn cael ei gefnogi gan banel Channel a/neu y mae angen atgyfeiriad arno. | • Plentyn y gwyddys ei fod yn ymwneud â gweithgareddau radical neu eithafol neu'n cael ei baratoi i ymwneud â hwy, ac yn mynegi ei gredoau y dylid defnyddio trais eithafol / lladd.<br>• Mynychu gwrthdystiadau lle defnyddir ymddygiadau treisgar ac eithafol.<br>• Aelod o sefydliadau sy'n hyrwyddo gweithredoedd eithafwyr treisgar.<br>• Dweud y bydd yn cyflawni trais i gefnogi safbwyntiau eithafol a/neu rannau delweddau eithafol treisgar.<br>• Wedi edrych ar wefannau eithafol ac yn cuddio gweithgareddau ar y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol. |

# Addysg

(Yn cynnwys presenoldeb ac absenoldeb)



## Dangosyddion o angen

Nid yw'r dangosyddion a restrir yn gynhwysfawr, ond dylid eu defnyddio fel canllawiau i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch lefelau angen a risgiau a'r ymateb priodol. Dylid ystyried dangosyddion o angen a risgiau yng nghyd-destun ehangach bywyd teulu'r plentyn. Dylid arfer barn broffesiynol i bennu lefel yr angen a'r risg.

**Gall anghenion a risgiau fod yn uniongyrchol ac yn acíwt neu gallant fod yn gronnus a gwaethygu dros gyfnod o amser.**

# MYNEDIAD AT ADDYSG

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Plentyn yn cael mynediad rheolaidd at ddarpariaeth addysgol heb unrhyw rwystrau i ddysgu.
- Dilyniant wedi'i gynllunio drwy'r ysgol/coleg neu y tu hwnt iddo.
- Mae'r plentyn wedi symud rhwng darpariaethau addysgol ar adegau pontio naturiol neu o ganlyniad i newid yn amgylchiadau'r teulu (e.e. symud tŷ).

---

- Mae'r plentyn mewn addysg ond mae'n profi rhai rhwystrau bach i ddysgu.
- Nid yw cynlluniau ar gyfer dilyniant drwy'r ysgol/coleg a thu hwnt wedi'u datblygu'n dda.
- Mae'r plentyn wedi symud sawl gwaith rhwng darpariaethau addysgol.

---

- Mae'r plentyn mewn addysg/hyfforddiant, ond mae'n profi rhwystrau i ddysgu.
- Nid oes cynlluniau ar waith ar gyfer dilyniant drwy'r ysgol/coleg a thu hwnt.
- Mae'r plentyn yn symud yn aml rhwng darpariaethau addysgol, ac mae pryderon ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Mae'r plentyn mewn perygl o ddod yn blentyn nad yw mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (ôl-16).

---

- Mae'r plentyn mewn addysg/hyfforddiant, ond mae'n profi rhwystrau sylweddol i addysg, sydd bellach yn effeithio ar ei ddiogelwch.
- Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer dilyniant trwy'r ysgol/coleg a thu hwnt ar waith, ochr yn ochr â phryderon ynghylch llesiant y plentyn yn y dyfodol a'i gyfleoedd mewn bywyd.
- Mae'r plentyn yn symud yn aml rhwng darpariaethau addysgol, ac mae pryderon ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Mae'r plentyn yn blentyn nad yw mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (ôl-16).

---

- Mae'r plentyn ar y gofrestr addysg, neu gyda darparwr hyfforddiant, ond nid yw'n ymgysylltu'n fawr ddim ag addysg, ac mae pryderon sylweddol ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Mae'r plentyn yn symud yn fynych, neu wedi symud yn fynych, rhwng darpariaethau addysgol, ac mae pryderon sylweddol ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Mae'r plentyn mewn perygl o niwed, gan gynnwys esgeulustod, o ganlyniad i beidio â chymryd rhan mewn addysg.

# PRESENOLDEB

## ATAL
### Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

- Mae'r plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd iawn.
- Mae unrhyw gyfnodau o absenoldeb yn fyr iawn ac yn briodol ac nid ydynt yn effeithio ar gynnydd addysgol y plentyn (h.y. apwyntiad deintyddol, cyfnod byr o salwch tymhorol) ac mae rhieni/gofalwyr wedi adrodd amdanynt yn briodol i'r ysgol.

---

- Mae gan y plentyn rai absenoldebau o'r ysgol oherwydd problemau dro ar ôl tro a/neu mae ganddo broblemau gyda phrydlondeb, ond fel arfer mae rhieni/gofalwyr yn adrodd am y rhain i'r ysgol.
- Mae rhai pryderon y gallai absenoldeb/hwyrni ddechrau effeithio ar gynnydd addysgol y plentyn.
- Fel arfer, mae rhieni/gofalwyr yn ymgysylltu â'r ysgol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch presenoldeb.

---

- Mae'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn gyson (presenoldeb islaw 90%) a/neu mae'r plentyn yn hwyr i'r ysgol yn aml.
- Mae'r plentyn yn aml yn osgoi gwersi a/neu'n gadael yr ysgol cyn diwedd y diwrnod ysgol.
- Mae'r un rhesymau dros absenoldeb yn cael eu hailadrodd, sy'n union yr un fath â'r rhesymau a roddir yn achos brodyr a chwiorydd, yn amwys neu'n ffug, neu ni roddir unrhyw reswm o gwbl.
- Nodir patrwm ailadroddus o ran pa ddyddiau y mae'r plentyn yn absennol arnynt.
- Mae ymgysylltu rhieni/gofalwyr ag ymyriadau monitro absenoldeb o'r ysgol a gwella presenoldeb yn gyfyngedig.
- Mae'r ysgol wedi dechrau prosesau absenoldeb ffurfiol.
- Cytunwyd ar ymyriadau cefnogol a phrosesau ffurfiol ar gyfer rheoli absenoldeb.

## GWASANAETHAU STATUDOL
### Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Mae'r plentyn yn absennol iawn o'r ysgol (presenoldeb islaw 50%) ac mae pryderon ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Mae ymgysylltu rhieni/gofalwyr â'r ysgol yn gyfyngedig iawn.
- Nid yw'r plentyn wedi cael ei weld gan yr ysgol nac unrhyw weithiwr proffesiynol arall ers pum niwrnod ysgol, ac nid oedd yn bosibl cysylltu â'r teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'r ysgol wedi defnyddio pob llwybr rhesymol o gymorth ac wedi gwneud atgyfeiriad ffurfiol at y Gwasanaeth Lles Addysg.
- Mae ymyriadau cefnogol a phrosesau rheoli absenoldeb ffurfiol (gan gynnwys ymyriadau'r Gwasanaeth Lles Addysg) wedi dangos cynnydd cyfyngedig.

---

- Nid yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol ac mae pryderon sylweddol ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.
- Nid yw'r plentyn wedi cael ei weld gan yr ysgol nac unrhyw weithiwr proffesiynol arall ers deg diwrnod ysgol, ac nid oedd yn bosibl cysylltu â'i deulu yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'r plentyn yn blentyn sy'n colli addysg.
- Nid yw ymyriadau cefnogol a phrosesau ffurfiol ar gyfer rheoli absenoldeb (gan gynnwys ymyriadau'r Gwasanaeth Lles Addysg) wedi bod yn llwyddiannus.
- Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio ymyriadau cyfreithiol (erlyn, Gorchmynion Mynychu'r Ysgol, Gorchmynion Goruchwylio Addysg), ac mae pryderon sylweddol ynghylch gofal neu ddiogelwch y plentyn.

# YMDDYGIAD

## ATAL
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

- Mae ymddygiad a datblygiad emosiynol a chymdeithasol y plentyn yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer ei oedran, ei ddatblygiad neu ei amgylchiadau.

- Mae gan y plentyn rai anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol lefel isel sy'n cael eu rheoli'n llwyddiannus o fewn polisi a gweithdrefnau ymddygiad yr ysgol.
- Mae rhai pryderon ynghylch ei berthynas â'i gyfoedion, ond mae'r rhain yn cael eu rheoli gan yr ysgol.

- Mae gan y plentyn anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol sydd angen cymorth ac ymyrraeth wedi'u targedu.
- Mae ymyriadau cefnogol a thechnegau rheoli ymddygiad priodol wedi'u nodi a'u cytuno fel rhan o gynllun ffurfiol neu anffurfiol y cytunwyd arno.
- Weithiau mae ymddygiad y plentyn yn effeithio'n negyddol ar ei gyfoedion ac aelodau staff.
- Mae ymddygiad y plentyn yn gofyn am gynllunio gofalus i'w gynnwys yn ddiogel mewn rhai gweithgareddau addysgol estynedig.
- Mae'r plentyn wedi cael sawl gwaharddiad tymor penodol yn ystod y 12 mis blaenorol, ac mae pryderon ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.

## GWASANAETHAU STATUDOL
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Mae gan y plentyn anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol sylweddol sy'n gofyn am gynllun unigol ffurfiol y cytunwyd arno i ymateb iddynt a'u cefnogi.
- Mae ymyriadau cefnogol a thechnegau rheoli ymddygiad priodol yn dangos cynnydd cyfyngedig.
- Mae ymddygiad y plentyn yn cael effaith negyddol yn rheolaidd ar ei gyfoedion ac aelodau staff.
- Mae ymddygiad y plentyn yn dechrau cyfyngu ar y cynnig addysgol y gall ei gael.
- Mae'r plentyn wedi cael nifer o waharddiadau tymor penodol yn ystod y 12 mis blaenorol a/ neu mae'r plentyn mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol, ac mae pryderon sylweddol ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.

- Mae gan y plentyn anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol sylweddol, ac nid yw'r cynllun unigol y cytunwyd arno yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny'n llwyddiannus.
- Mae ymddygiad y plentyn yn cael effaith negyddol ar yr ysgol gyfan.
- Mae ymddygiad y plentyn yn cyfyngu ar y cynnig addysgol y gall ei gael (e.e. methu â chael ei gynnwys yn ddiogel mewn ymweliadau â'r ysgol).
- Mae'r plentyn wedi'i wahardd yn barhaol ac mae pryderon sylweddol ynghylch ei ofal neu ei ddiogelwch.

# DATBLYGIAD

## ATAL
Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol

## GWASANAETHAU STATUDOL
Gofal a chymorth/amddiffyniad

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Mae cerrig milltir datblygiad y plentyn yn cael eu cyrraedd yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer ei oedran, ei ddatblygiad neu ei amgylchiadau.
- Mae'r plentyn yn cyrraedd ei botensial unigryw.

---

- Nid yw rhai cerrig milltir datblygiad yn cael eu cyrraedd a byddant yn cael eu cefnogi gyda chymorth gwell.
- Mae'r plentyn yn dangos rhai problemau o ran ei ddatblygiad neu iechyd sy'n effeithio ar ei gyfranogiad mewn dysgu, ac nid yw'r rhieni wedi hysbysu'r ysgol am y rhain.
- Mae darpariaeth ddysgu gyffredinol wedi'i nodi gan yr ysgol, ac mae ar waith.

---

- Nid yw rhai cerrig milltir datblygiad yn cael eu cyrraedd, a bydd angen gwasanaethau cymorth wedi'u targedu ar eu cyfer.
- Mae gan y plentyn broblemau o ran ei ddatblygiad neu iechyd y gwyddys amdanynt sy'n effeithio ar ei gyfranogiad mewn dysgu / yn yr ysgol, ac mae rhai pryderon ynghylch ei ofal a'i ddiogelwch.
- Mae cynllun datblygu unigol yr ysgol a/neu gynllun gofal iechyd unigol y cytunwyd iddo ar waith.
- Mae gallu'r rhieni/ gofalwyr i gydnabod, deall a darparu ar gyfer anghenion – gan gynnwys anghenion addysgol – eu plentyn yn gyfyngedig.

---

- Mae cerrig milltir datblygiad y plentyn wedi'u gohirio, neu eu heffeithio, sy'n peri pryderon ynghylch esgeulustod posibl a risg o niwed yn y dyfodol.
- Mae gan y plentyn broblemau o ran ei ddatblygiad neu iechyd y gwyddys amdanynt sy'n effeithio'n andwyol ar bob maes datblygiad, ac mae pryderon cynyddol ynghylch ei ofal a'i ddiogelwch.
- Cynllun datblygu unigol gan yr awdurdod lleol y cytunwyd iddo ar waith.
- Mae cynllun gofal unigol y cytunwyd iddo ar waith, ond mae rhai pryderon ynghylch a oes modd ei gyflwyno'n briodol yn yr ysgol.
- Mae gallu'r rhieni/gofalwyr i gydnabod, deall a darparu ar gyfer anghenion – gan gynnwys anghenion addysgol – eu plentyn wedi'i gyfyngu'n ddifrifol.

---

- Mae cerrig milltir datblygiad y plentyn wedi'u gohirio neu eu heffeithio'n sylweddol, gan achosi pryderon ynghylch esgeulustod parhaus a risg o niwed yn y presennol.
- Mae gan y rhieni/gofalwyr ddiffyg gallu i gydnabod, deall a darparu ar gyfer anghenion – gan gynnwys anghenion addysgol – eu plentyn.
- Mae angen i'r plentyn fyw mewn lleoliad preswyl arbenigol gyda darpariaeth addysg ar gyfer amddiffyniad a diogelwch, neu mae'n byw mewn lleoliad preswyl arbenigol.
- Mae angen addysg ar y plentyn neu mae'n byw mewn addysg fel rhan o orchymyn llety diogel er mwyn ei amddiffyn (darpariaeth lles a throseddol Deddf Plant 1989).

# ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

## ATAL
**Gwybodaeth, cyngor a chymorth, a/neu wasanaethau anstatudol**

- Gall adran addysg yr awdurdod lleol ddangos tystiolaeth bod yr addysg a ddarperir yn addas i oedran a gallu'r plentyn.

- Mae pryderon lefel isel ynghylch gofal neu ddiogelwch y plentyn a/neu addasrwydd yr addysg sy'n cael ei darparu.

- Mae gan yr awdurdod lleol bryderon sylweddol ynghylch gofal neu ddiogelwch y plentyn a/neu addasrwydd yr addysg sy'n cael ei darparu.
- Caiff y plentyn ei dynnu o'r ysgol i gael addysg ddewisol yn y cartref pan fo ymyriadau eisoes ar waith i gefnogi lles/llesiant.

## GWASANAETHAU STATUDOL
**Gofal a chymorth/amddiffyniad**

(Angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol)

- Nid yw'r awdurdod lleol wedi gallu dangos tystiolaeth bod addysg addas yn cael ei darparu. Gall pryderon ynghylch gofal neu ddiogelwch y plentyn ymestyn y tu hwnt i ddiffyg addysg addas hefyd.
- Mae plentyn sy'n destun ymyrraeth statudol er lles/llesiant yn cael ei dynnu o'r ysgol i gael addysg ddewisol yn y cartref, ac mae pryderon ynghylch ymgysylltu ehangach rhieni/gofalwyr â gwasanaethau a chynllun cymorth.

- Pryderon proffesiynol neu dystiolaeth wedi'i gwirio nad oes addysg addas yn cael ei darparu o gwbl. Gall pryderon neu dystiolaeth o niwed sylweddol ymestyn y tu hwnt i ddiffyg addysg addas hefyd.
- Mae'r plentyn yn cael addysg ddewisol yn y cartref, ac wedi'i nodi fel unigolyn sydd mewn perygl o niwed sylweddol, eisoes yn profi niwed sylweddol / nid yw rhieni/gofalwyr yn ymgysylltu o gwbl â'r cynllun amddiffyn.

## Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan:

Cynhelir asesiad cymesur o angen sy'n ystyried y canlynol:

**1 Canlyniadau personol (plant):**

- Y gallu i gyflawni arferion domestig
- Y gallu i gyfathrebu
- Amddiffyniad rhag cam-drin ac esgeulustod
- Cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu a hamdden
- Cynnal neu ddatblygu cydberthnasau teulu neu gydberthnasau arwyddocaol eraill
- Datblygu a chynnal cydberthnasau personol a chymryd rhan yn y gymuned
- Cyflawni nodau datblygiad

**2 Rhwystrau i gyflawni canlyniadau personol**


**3 Risgiau i gyflawni canlyniadau personol**

**4 Cryfderau a galluoedd**

A oes modd diwallu'r angen a nodwyd drwy gyfeirio at wasanaethau ataliol neu mewn ffordd arall?

- Os oes, nid yw'r plentyn yn gymwys.
- Os na, neu os oes angen amddiffyniad ar y plentyn, mae'n gymwys.

## Siart llif Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth:




[1] https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/hub-downloads/Siart_lif____Sut_i_gael_mynediad_ar_ofal_a_chymorth.pdf

# **Atodiad 2:** Triongl y Fframwaith Asesu


**Mae pob plentyn yn newid ac yn datblygu dros amser.**

**Mae gan rieni gyfrifoldeb i ymateb i anghenion y plentyn.**

Diben y triongl asesu hwn yw eich helpu i nodi meysydd cryfder a meysydd o angen datblygiadol, er mwyn eich cynorthwyo i benderfynu a oes angen gwybodaeth, cyngor neu gymorth a/neu ofal a chefnogaeth ar y plentyn / yr unigolyn ifanc hwn i gyflawni safon resymol o ddatblygiad, neu i atal amhariad sylweddol ar ei iechyd a'i ddatblygiad.

Er efallai nad yw'r datganiadau blaenorol yn peri pryder ar eu pen eu hunain, mae angen ystyried y cyfuniad o ffactorau mewn asesiad cyfannol.

Mae'n bwysig ystyried cryfderau yn ogystal ag anawsterau.




[2] gwentsafeguarding.org.uk/assets/document-library/Protocols-and-Procedures/Childrens-DTR-Continuum-of-Support-and-Threshold-Guidance-March-2024.pdf

# Atodiad 3: Detholiad o Iechyd Cyhoeddus Cymru[3]

Ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

GIG Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru
NHS Wales | Public Health Wales

## Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Lles Meddwl Oedolion yng Nghymru

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn cael effaith niweidiol ar iechyd a lles ar draws cwrs bywyd. Mesurodd Astudiaeth ACE Cymru gyswllt â naw ACE ymysg poblogaeth Cymru a'u heffaith ar les meddwl pan yn oedolyn.

**Dioddefodd 47% o oedolion yng Nghymru o leiaf un ACE yn ystod eu plentyndod a dioddefodd 14% 4 neu fwy**

**Faint o oedolion yng Nghymru sydd wedi cael cyswllt â phob ACE?**

### CAMDRINIAETH PLANT

| Cam-drin llafar | Cam-drin corfforol | Cam-drin rhywiol |
|---|---|---|
| 23% | 17% | 10% |


### AELWYD PLENTYNDOD WEDI CYNNWYS

| Rhieni'n gwahanu | Trais domestig | Salwch meddwl | Cam-drin alcohol | Defnyddio cyffuriau | Carcharu |
|---|---|---|---|---|---|
| 20% | 16% | 14% | 14% | 5% | 5% |

### Cynyddodd nifer yr achosion o les meddwl gwael ymysg oedolion gyda nifer yr ACE a ddioddefwyd yn ystod plentyndod

Cafodd lles meddwl ei fesur gan ddefnyddio Graddfa Fer Lles Meddwl Warwick-Edinburgh (SWEMWBS) sydd yn cynnwys saith cwestiwn i asesu lles meddwl dros y pythefnos diwethaf. Caiff o sgôr ar gyfer y cwestiynau hyn eu cyfuno i roi sgôr cyffredinol o les meddwl yn amrywio o 7 i 35. Rhoddwyd unigolion oedd â sgôr o lai nag 20 yn y categori o fod â lles meddwl gwael.*

**Nifer yr achosion o les meddwl gwael ymysg oedolion yn ôl nifer yr ACE a dioddefwyd yn ystod plentyndod**




*Nodwyd lles meddwl gwael fel gwyriad safonol >1 islaw sgôr lles meddwl cyffredinol SWEMWBS yr holl ymatebwyr (cymedr = 24.47, SD = 4.57, isel ,20).*

### Gan ystyried ffactorau demograffig, roedd oedolion â 4+ ACE bum gwaith$ yn fwy tebygol o fod â lles meddwl gwael na'r rheiny heb unrhyw ACE

**Dros y pythefnos diwethaf, o'u cymharu â phobl heb unrhyw ACE, roedd y rheiny â 4+ ACE hefyd:**

- **3 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi teimlo'n hamddenol
- **3 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi teimlo'n agos at bobl eraill
- **4 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi bod yn meddwl yn glir
- **5 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi ymdrin yn dda â phroblemau
- **5 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi gallu gwneud eu penderfyniad eu hunain am bethau
- **6 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi teimlo'n gadarnhaol am y dyfodol
- **6 gwaith yn fwy tebygol** o fod byth neu braidd byth wedi teimlo'n ddefnyddiol

### Gallai atal ACE ymysg cenedlaethau'r dyfodol leihau lefelau:

- Lles meddwl gwael o 27%
- Peidio teimlo'n gadarnhaol am y dyfodol o 43%
- Peidio teimlo'n ddefnyddiol o 48%
- Peidio teimlo'n hamddenol o 38%
- Peidio ymdrin yn dda â phroblemau o 31%
- Peidio meddwl yn glir o 34%
- Peidio teimlo'n agos at bobl eraill o 25%
- Peidio gallu gwneud penderfyniad am bethau o 26%

Fe wnaeth arolwg cenedlaethol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru gyfweld â thua 2000 o bobl (18-69 oed) ledled Cymru yn eu cartrefi yn 2015. O'r rheiny oedd yn gymwys i gymryd rhan, cytunodd ychydig llai na hanner i gymryd rhan ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser. Mae'r wybodaeth yn y ffeithlen hon yn ategu'r adroddiad cyntaf ar ***Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u cysylltiad ag ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymhlith poblogaeth oedolion Cymru*** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.


Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Adeilad Haydn Ellis, Heol Maendy, Cathays, Caerdydd, CF24 4HQ.

www.publichealthwales.wales.nhs.uk Ffôn: +44(0)2921 841933


Mai 2016

*$ Ar ôl ystyried ffactorau demograffig (oed, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd preswyl)*

[3] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/FINAL-ACE-Mental-Well-being-Infographic-W.pdf

# **Atodiad 4:** Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i wella arfer diogelu amlasiantaeth yn barhaus.

Yn gyffredinol, mae perthynas waith dda rhwng asiantaethau partner ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Anogir gwahaniaethau a dadleuon iach, ac fe'u hystyrir yn rhan annatod o waith amlasiantaeth diogel ac ymarfer diogelu.

Os oes gwahaniaethau barn difrifol sy'n debygol o rwystro gallu gweithwyr proffesiynol i reoli risg, diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc agored i niwed nad oes modd eu datrys yn anffurfiol fel rhan o waith dyddiol, fforymau lleol a chyfathrebu, yna gall polisïau uwchgyfeirio ddarparu fframwaith defnyddiol ar gyfer archwilio a datrys anghytundebau proffesiynol.

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn annog asiantaethau i leisio barn a thrafod gwahanol safbwyntiau ar faterion yn ymwneud ag ymarfer. Gall unrhyw asiantaeth ofyn am gyfarfod amlasiantaeth pan nad yw anghydfodau proffesiynol wedi'u datrys. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Bwrdd Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol weithredu fel cyflafareddwr/cyfryngwr yn achos anghytundebau dros gyfnod estynedig neu anghytundebau anorchfygol.

Mae protocol datrys gwahaniaethau proffesiynol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael [yma]



Protocol Aml-asiantaeth ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol


BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | Ebrill 2012 | Fforwm Diogelu Plant Dyfed-Powys | Cymeradwywyd gan bob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn y rhanbarth | Ebrill 2013 |
| F2 | Rhagfyr 2017 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau) | 19 Ebrill 2018 | Ebrill 2020 |
| F3 | Hydref 2022 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisiau a Gweithdrefnau) | 24 Ionawr 2023 | 24 Ionawr 2025 |

# **Atodiad 5:** Trefniadau Ardal Leol a Mapio Gwasanaethau

Mae'r profforma enghreifftiol isod i'w chwblhau gan dimau diogelu gyda threfniadau eu hardal awdurdod lleol a mapio gwasanaethau:

| GWASANAETHAU CYFFREDINOL | CYMORTH CYNNAR | CYMORTH WEDI'I DARGEDU | ASESU AR GYFER GOFAL A CHYMORTH | CYMORTH AMDDIFFYNNOL |
|---|---|---|---|---|
| Meddygon teulu | Dechrau'n Deg | Ymwelydd iechyd diogelu arbenigol Dechrau'n Deg | Gwasanaethau Haen 3 ar gyfer camddefnyddio sylweddau | Timau diogelu gofal cymdeithasol ac amddiffyn plant |
| Bydwreigiaeth | Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau | Timau diogelu iechyd arbenigol | Gwasanaeth plant sy'n derbyn gofal | Adrannau damweiniau ac achosion brys |
| Ymwelwyr iechyd | Gwasanaethau plant a theuluoedd | Bydwraig ddiogelu arbenigol | Gofal cymdeithasol – gwasanaethau plant | Yr heddlu |
| Nyrsio cymunedol | Tîm o Amgylch y Teulu | Tîm o Amgylch y Teulu | Arweinwyr diogelu yn yr ysgol | Gwasanaeth Prawf |
| Ysbytai | Tîm Ymyriad Teuluol | Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc | Timau cyfiawnder ieuenctid | |
| Deintyddion | Llwybrau Newydd / Gweithffyrdd – cymorth cyflogaeth | Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau | Diogelu pobl agored i niwed, unedau heddlu | |
| Gofal plant | Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig | Lloches / llety diogel | Gwasanaeth Prawf | |
| Canolfannau teulu | Dewisiadau digartrefedd | Gwasanaethau cwnsela | | |
| Budd-daliadau, gwasanaethau ariannol | Cymorth i ddioddefwyr | Arweinwyr diogelu yn yr ysgol | | |
| Tai | Gwasanaethau ieuenctid | Gwasanaethau ieuenctid | | |
| Cymorth i ddioddefwyr | Yr heddlu | Yr heddlu | | |
| Cyngor ar Bopeth | Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf | Gwasanaethau eirioli | | |
| Addysg | Gwasanaethau cymorth generig yn y gymuned | Gofalwyr ifanc | | |
| Gwasanaethau ieuenctid | Gwasanaethau anabledd | Cymorth anghenion dysgu ychwanegol | | |
| Yr heddlu | Gwasanaethau eirioli | Gwasanaeth Lles Addysg | | |
| Grwpiau cymdeithasol yn y gymuned | Cefnogi Pobl – cymorth tenantiaeth | | | |
| Nyrsio ysgolion | | | | |



Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru • Mid and West Wales Safeguarding Children Board

CYSUR

# CYSUR:

## BWRDD DIOGELU PLANT CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU


www.cysur.cymru

CYSUR@pembrokeshire.gov.uk


| Fersiwn | Proses ymgynghori | Perchennog | Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol |
|---|---|---|---|
| F1 | Sesiynau ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 27 Ebrill 2017 |
| F2 | Sesiynau Ymgynghori gyda Phartneriaid Amlasiantaethol | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 21 Hydref 2025 |